

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, 2020

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd) Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg)(Is-gadeirydd) Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts. Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc (ar gyfer eitem 5) Rheolwr Cyllid (CK) Prif Archwilydd (CNC) Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) (ar gyfer eitem 8) Swyddog y Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Marion Pryor (Pennaeth Archwilio a Risg)
HEFYD YN BESENNOL:	Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio dros Gyllid), Uwch Archwilydd (EW)

1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. COFNODION CYFARFOD 3 MEDI, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2019 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion sy'n codi—

- **Eitem 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol CSYM 2018/19** - Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y sefyllfa o ran cwblhau a derbyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Disgwylid i'r canfyddiadau drafft fod yn hysbys i'r Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn galendr flaenorol. Cafodd y Pwyllgor wybod gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru; Deallwyd y byddai pob awdurdod yn derbyn adborth llafar i gychwyn ac y byddai adroddiadau lleol ar gyfer yr awdurdodau unigol yn cael eu cyhoeddi wedi hynny. Disgwylir y bydd adroddiad cryno cenedlaethol drafft o'r canfyddiadau hefyd yn cael ei gyhoeddi tua mis Ebrill, 2020. Cadarnhaodd y Swyddog nad yw'r Cyngor ar Ynys Môn hyd yma wedi derbyn adborth o'r ymarfer.
- **Eitem 6 - Diweddariad Archwilio Mewnol (yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol)** - Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar sefyllfa staff y

Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod strwythur staff parhaol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys 5 aelod o staff llawn amser (Pennaeth Archwilio a Risg, Prif Archwilydd a 3 Uwch Archwilydd) ac ychwanegwyd swyddog atynt yn ddiweddar yn sgil secondiad dros dro o'r Gwasanaeth Cyfrifeg. Ar hyn o bryd mae dwy swydd Uwch Archwilydd wag - un oherwydd secondiad i'r Gwasanaeth Cyfrifeg a'r llall oherwydd penodiad parhaol i'r Gwasanaeth Cyfrifeg - sy'n golygu bod lefel staff y gwasanaeth ar hyn o bryd yn 3.6 yn erbyn lefel sefydliad o 5 aelod o staff llawn amser. Wrth gadarnhau bod hysbyseb ar gyfer un swydd Uwch Archwilydd parhaol amser llawn ac un swydd Uwch Archwilydd dros dro llawn amser wedi'i chyhoeddi, dywedodd y Swyddog fod timau archwilio mewnol ar draws awdurdodau lleol, yn bennaf oherwydd toriadau gorfodol, wedi lleihau o ran maint a bod natur swydd yr Archwilydd Mewnol hefyd wedi newid gyda llai o ymgeiswyr ar y lefel cynorthwydd is. Felly, mae'r broses recriwtio yn canolbwyntio ar ddenu staff archwilio mewnol cwbl gymwys a phrofiadol, ac er bod yr awdurdod hwn wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar yn y cyswllt hwn, gall fod yn heriol. Y dewis arall fyddai ailystyried y swyddi Archwilydd Mewnol gyda'r bwriad o benodi ar lefel is a darparu hyfforddiant yn y gwaith; ac er bod y model "tyfu eich hun" yn un a ffafrir gan yr Awdurdod, mae'n debyg mai anfantais y dull hwn fyddai llai o allbwn gan y tîm Archwilio Mewnol yn y tymor byr.

- **Eitem 7 – Adolygu Cylch Gorchwyl Archwilio a Llywodraethu** – Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddiariad ar y sefyllfa o ran darparu hyfforddiant ar faterion llywodraethu a nodwyd gan sesiwn o'r 22 o gadeiryddion a phenaethiaid archwilio yng Nghymru fel maes lle gallai pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol Cymru elwa ar gymorth ychwanegol. Er nad oedd mewn sefyllfa i gadarnhau a oedd cynnydd wedi'i wneud o ran y trefniadau hyfforddi hynny, dywedodd y Prif Archwilydd y byddai'n rhoi gwybod i Bennaeth Archwilio a Risg iddi ei egluro yn y cyfarfod nesaf. Er gwybodaeth, dywedodd yr Is-gadeirydd ei fod ef a'i Gyd-aelod Lleyg wedi mynychu cwrs CIPFA lle'r oeddent wedi cyfnewid barn am yr heriau o sicrhau bod pwyllgorau archwilio yn cyflawni'n briodol yr holl swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo iddynt. Cytunwyd y byddai ef a Mr Dilwyn Evans (aelod lleyg), ar ôl bod ar y cwrs, yn cyfarfod Pennaeth Archwilio a Risg i nodi unrhyw feysydd cyfrifoldeb nad yw'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn ymdrin â hwy'n ddigonol ar hyn o bryd ac i ystyried sut y gellir goresgyn hyn.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

3. ARFERION RHEOLI TRYSORLYS

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cynnwys datganiad ar Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (2017).

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arfer gorau yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Mae'r Cod yn argymhell bod y Cyngor yn cofnodi ei weithdrefnau rheoli'r trysorlys fel Arferion Rheoli'r Trysorlys (TMPs). Mae adran 7 ac Atodlen 2 y Cod yn cynnwys awgrymiadau ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn TMPs awdurdodau. Cwblhawyd a chymeradwywyd TMPs presennol y Cyngor yn 2016. Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau ac maent yn cymeradwyo nifer o'r awgrymiadau a ddarparwyd gan God CIPFA yn ogystal â chynnwys adran (TMP13) ar fuddsoddiadau sydd ym meddiant y Cyngor nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys, yn unol â gofynion Cod Rheoli Trysorlys diwygiedig CIPFA. Buddsoddiadau nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys y Cyngor yw'r eiddo buddsoddi y mae'r Gwasanaethau Eiddo yn eu rheoli.

Rhoddodd y swyddog drosolwg cryno o'r 13 TMP a restrwyd a chyfeiriodd at TMP13 sydd newydd gael ei ychwanegu at Fuddsoddiadau nad ydynt yn Fuddsoddiadau Rheoli Trysorlys

gan esbonio beth mae'r arfer hwn yn cyfeirio ato, a thynnodd sylw at sut y mae'r TMPs eraill - TMP 1, 2, 5, 6 a 10 yw'r rhai mwyaf perthnasol - yn berthnasol i fuddsoddiadau nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli trysorlys. Mae Datganiad Cyfrifon 2018/19 yn dangos bod portffolio buddsoddi'r Cyngor yn werth £6m sy'n unedau diwydiannol yn bennaf. Yn 2017/18 a 2018/19, roedd ffrwd incwm net o bortffolio buddsoddi'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau yn codi ar yr adroddiad, dywedodd y Pwyllgor—

- Yn wahanol i Loegr lle mae gan awdurdodau lleol bŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n caniatáu iddynt fuddsoddi'n ariannol mewn asedau fel canolfannau siopa, gwestai a sinemâu y tu mewn a thu allan i ardal eu hawdurdod, nid oes gan gynghorau yng Nghymru bwerau o'r fath a byddai'n rhaid iddynt ddefnyddio pwerau datblygu economaidd eraill pe baent yn bwriadu gwneud buddsoddiadau a fyddai, beth bynnag, wedi'u cyfyngu i'w hardaloedd eu hunain. Mae portffolio eiddo buddsoddi'r Cyngor yn cynnwys unedau masnachol a diwydiannol yn ogystal ag ambell eiddo manwerthu ond nid yw wedi buddsoddi mewn unrhyw asedau manwerthu mwy.
- Nad oes gan y Cyngor gyfleuster gorddrafft cymeradwy gyda'i fanc ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn rheoli ei ofynion o ran llif arian yn rheolaidd rhag bod mewn dyled. Hefyd, mae trefniadau bancio wedi'u gweithredu fel bod yr holl gyfrifon banc o dan y contract corfforaethol gyda NatWest yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar falans y Cyngor. Felly, os bydd gormod o arian wedi cael ei godi o unrhyw gyfrif a hynny'n creu dyled, bydd y swm cyfatebol yn cael ei gymryd o gyfrifon eraill sydd mewn credyd gan olygu na fydd y cyngor â gorddrafft. Hefyd, pe bai angen, gall yr Awdurdod fenthyca ar fyr rybudd gyda'r PWLB – byddai benthygiad o'r fath, p' un ai a fyddai'n un tymor byr neu dymor hwy yn costio llai na gorddrafft. **Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan y ffaith bod cofnod llif arian dyddiol o symudiadau a balansau yn cael ei gadw a'i ddiweddarau yn y bore a'r prynhawn.**
- O ran meini prawf gwrth-barti (TMP1, 1.1.) nid yw awdurdodau lleol y DU yn cael gradd credyd yn yr un modd â sefydliadau bancio. Pe bai'r Awdurdod yn bwriadu buddsoddi yn y tymor byr gydag awdurdod lleol arall, yna byddai'n gwneud y gwiriadau angenrheidiol o'r awdurdod y mae'n buddsoddi gydag ef. Mae awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel buddsoddiad risg isel; mae diogelwch ac addasrwydd i dderbyn credyd ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi dod yn flaenoriaethau i awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.
- Bod Gwasanaeth Ymgynghorol/Ymgynghorwyr Arbenigol Rheoli'r Trysorlys yn cael ei ddarparu gan Link Asset Services (Capita Asset Services gynt); roedd eu contract yn mynd o 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2019 ond gydag opsiwn i'w ymestyn am hyd at 2 flynedd. Cytunwyd ar estyniad i'r contract ac mae'n weithredol.

Penderfynwyd—

- **Nodi cynnwys y blaen adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r Arferion Rheoli'r Trysorlys diwygiedig yn Atodiad 1 a'u hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb wneud sylw pellach.**

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

4. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2020-2021

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 yn cynnwys Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn nodi dull arfaethedig y Cyngor o fuddsoddi a gweithgareddau benthyca yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yng ngoleuni'r amodau economaidd presennol a'r rhai a ragwelwyd.

Wrth gadarnhau nad oes unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2019/20, nododd y Rheolwr Cyllid fod prif bwyntiau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21 fel a ganlyn-

- Y cyd-destun ehangach i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Ni ellir cyflawni'r strategaeth ar ei phen ei hun, a rhaid ystyried y sefyllfa economaidd gan fod hyn yn cael effaith ar gyfraddau buddsoddi, cost benthyca a chryfder ariannol y gwrth-bartïon. Rhoddir crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd yn Atodiad 3 i'r Datganiad a chrynohoir y prif bwyntiau yn adran 3.1. Mae'r ansicrwydd ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU ac ardal yr Ewro yn debygol o barhau ac mae disgwyl i adenillion buddsoddi aros yn isel yn ystod 2020/21 heb fawr o gynnydd yn y ddwy flynedd ganlynol.
- Sefyllfa fenthyca allanol bresennol y Cyngor fel y nodir yn Nhabl 2 o'r adroddiad sy'n rhoi crynodeb o fenthyciadau cyfredol dyledus y Cyngor.
- Rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21 i 2022/23 fel y nodir yn Nhabl 3 o'r adroddiad a sut y caiff hyn ei ariannu. Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllid Cyfalaf y Cyngor sy'n cyfrifo angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r CFR ond dim ond ar sail y swm nad yw'n cael ei ariannu o grantiau cyfalaf, derbyniadau, cronfeydd wrth gefn neu referniw. Bydd y CFR hefyd yn lleihau'n flynyddol yn ôl swm yr Isafswm Darpariaeth Referniw (MRP) sy'n dâl a wneir i'r cyfrif referniw bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu ad-dalu dyled fel y mae'n dod yn ddyledus. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad MRP cyn pob blwyddyn ariannol – mae'r polisi ar gyfer 2020/21 wedi ei nodi yn Atodiad 6 ac nid yw wedi newid ers 2019/20 yn dilyn adolygiad cynhwysfawr yn 2018. Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl MRP ar y CFR a lefel y benthyca allanol a mewnl yn Nhabl 4 o'r adroddiad.
- Mae strategaeth fenthyca'r Cyngor a'r ffactorau sy'n effeithio arni wedi'u nodi yn adran 6 o'r Datganiad. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o danfenthyca sy'n golygu nad yw CFR y Cyngor wedi'i ariannu'n llawn gyda dyledion benthyciadau fel arian i gefnogi cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Defnyddiwyd balansau a llif arian fel mesur dros dro. Er bod hwn yn ddull darbodus gan fod adenillion buddsoddi yn isel a bod risg gwrth-bartïon yn dal i fod yn fater i'w ystyried, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r cronfeydd a'r balansau os oes angen, yn bwysig. Mae Tabl 4 o'r Datganiad yn dangos y gall fod angen benthyg £12.777m yn allanol os bydd angen ar frys, sef swm cronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn hytrach na benthyca.
- Ni fydd y Cyngor yn benthyca cyn bod angen na mwy na sydd ei angen, yn unig er mwyn elwa ar fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycir. Wrth benderfynu a fydd yn benthyca cyn bod angen, rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau a amlinellir ym mharagraff 6.4.2.
- Bydd y Cyngor yn cymryd agwedd hyblyg wrth ddewis rhwng benthyca mewnl ac allanol fel y nodir yn adran 6.3 o'r adroddiad. Mae'r Cyngor wedi bod yn gwneud defnydd o'i gronfeydd arian parod ei hun i ariannu gwariant cyfalaf er mwyn lleihau taliadau llog drwy ohirio'r angen i fenthyca'n allanol. Fodd bynnag, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau os oes angen yn rhan bwysig o'r strategaeth. Mae'r cyfleoedd ar gyfer ail-amserlennu dyled neu ad-dalu'n gynnar yn debygol o barhau'n gyfyngedig ond byddant yn cael eu hystyried os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 6.5 o'r adroddiad.
- O ran blaenoriaethau buddsoddi, mae'r Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu cyfalaf yn gyntaf, hylifedd yn ail ac elw ar fuddsoddiad yn drydydd. Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a CIPFA sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull darbodus o reoli risg ac yn ymdrin â risgiau drwy'r modd a nodir yn adran 7.2.3 yr adroddiad.

- Dangosyddion Darbodus a'r Trysorlys fel yr amlinellir yn Atodiad 11 o'r Datganiad; mae'r rhain yn cynnwys fforddiadwyedd a ffactorau darbodus ac yn nodi'r terfynau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol a strwythur y ddyled. Disgrifir diben pob dangosydd yn Atodiad 12.

Codwyd y materion canlynol gan y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad—

- Cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yw £126m a'r rhesymau dros y lefel hon o ddyled. Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) /Adran 151 fod llawer o'r ddyled yn hanesyddol ers sefydlu'r Cyngor yn 1996 gan etifeddu holl fenthyciadau dyledus ei ragflaenydd, y Cyngor Bwrdeistref yn ogystal â chyfran o'r benthyciadau gan yr hen Gyngor Sir Gwynedd. O ran benthyciadau'r Cyngor presennol, mae ei fenthyciadau mwyaf wedi bod yn £21m er mwyn dod allan o Gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai; yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi cychwyn ar raglen moderneiddio ysgolion sydd hyd yma wedi golygu adeiladu tair ysgol gynradd newydd a ariennir drwy gyfuniad o grant Llywodraeth Cymru, a benthycia â chymorth a heb gymorth. Er bod y Cyngor wedi bod yn benthycia'n fewnol drwy ddefnyddio'r arian a ddelir ganddo i ariannu gwariant cyfalaf, gwnaed penderfyniad y llynedd i allanoli rhywfaint o'r benthyciad hwn er mwyn adennill arian parod a wariwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach am briodoldeb benthycia hirdymor, cadarnhaodd y Swyddog fod y taliadau llog yn tueddu i fod yn uwch ar gyfer benthycia hirdymor oherwydd y cynnydd mewn risg sy'n gysylltiedig â nhw; ond ar y llaw arall, gan fod yn rhaid i'r Cyngor dalu taliadau llog o'i gyllideb refeniw, po hiraf yw cyfnod y benthyciad, y lleiaf yw'r tâl isafswm darpariaeth refeniw (MRP) sef y swm y mae'n rhaid i'r Cyngor ei neilltuo i ad-dalu prif swm ei ddyled allanol - gyda benthyciad tymor hir, mae'r tâl MRP yn cael ei ledaenu dros gyfnod hirach ac felly mae'n sylweddol is.

- P'un ai a yw'r Cyngor yn ceisio symud oddi wrth y PWLB fel ei ffynhonnell fenthycia o ganlyniad i gynydd o 100 bps yng nghyfraddau PWLB ym mis Tachwedd, 2019. Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaethau (Adnoddau) / Adran 151, hyd yn oed gyda'r cynnydd, fod benthyciadau PWLB ar y cyfan yn parhau i fod yn rhatach na ffynonellau masnachol. Bydd yr Awdurdod yn trafod y mater gyda'i Gynghorwyr Rheoli Trysorlys ac os yw ei ofynion benthycia yn cynyddu, efallai y bydd yn rhaid iddo ystyried cymryd camau eraill i fenthycia gyda'r PWLB.

Mewn ymateb i sylwadau am bwysigrwydd gwireddu asedau nad oes eu hangen bellach er mwyn cael incwm, cadarnhaodd y Swyddog fod gan yr Awdurdod Bolisi Rheoli Asedau a'i fod yn ceisio cael gwared ar asedau sydd dros ben drwy sicrhau ei fod yn gwerthu ar yr adeg iawn er mwyn cael y pris gorau am yr ased y mae'n ei werthu.

Penderfynwyd nodi Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.

NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

5. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a roddodd ddiweddariad ar gynydd diweddaraf gwaith Archwilio Mewnol mewn perthynas â darparu gwasanaeth, cynnig sicrwydd, ac adolygiadau a gwblhawyd i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Tynnodd y Prif Archwilydd sylw at y prif bwyntiau a ganlyn—

- Bod dau adroddiad wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod (roedd copiau ar gael i'r Pwyllgor) – Rheoli Risgiau Brexit a Chynllunio Parhad Busnes a arweiniodd at farn Sicrwydd Rhesymol. Ni chodwyd unrhyw faterion/risgiau ynglŷn â'r cyntaf, a nodwyd pedwar mater/risg ar gyfer sylw'r rheolwyr ar y tri olaf sy'n cael eu hystyried yn "Sylweddol" oherwydd effaith bosibl y risg yn y maes hwn. Er hynny, mae canlyniad yr adolygiad gan Archwilio Mewnol yn gadarnhaol ar y cyfan a chytunwyd ar gynllun gweithredu i roi sylw i'r materion hyn gyda Rheolwyr. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy system olrhain gweithredu gan Archwilio Mewnol.
- Cwblhawyd pedwar adolygiad dilyn i fyny yn ystod y cyfnod - Taliadau Uniongyrchol (gwaith dilyn i fyny cyntaf - Sicrwydd Rhesymol); Gwiriad Iechyd Llywodraethu Gwybodaeth Ysgolion (gwaith dilyn i fyny cyntaf - Sicrwydd Rhesymol); Adolygiad Llywodraethu yn Ysgol Kingsland (gwaith dilyn i fyny cyntaf - Sicrwydd Sylweddol) a **Chasglu Incwm Ysgolion Cynradd (adolygiad dilyn i fyny cyntaf - Sicrwydd Cyfyngedig)**. O ran yr olaf, er bod llawer o waith wedi'i wneud a chynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn wreiddiol, mewn llawer o achosion nid oedd yn ddigon i fynd i'r afael â'r mater/risg. Mae amserlenni afrealistig, ynghyd â materion staffio ar draws nifer o adrannau, yn golygu bod nifer o gamau gweithredu yn dal heb eu cymryd. Yn ogystal â hyn, bydd angen i swydd yr Uwch Reolwr Cynradd gymeradwyo'r broses newydd ac nid yw'r swydd hon wedi'i llenwi eto. Canfu'r adolygiad dilyn i fyny hefyd na fyddai rhai o'r camau rheoli a gynigiwyd yn wreiddiol, hyd yn oed pe byddent yn cael eu gweithredu'n llawn, yn mynd i'r afael â'r mater/risg a godwyd. Felly mae camau pellach wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda'r Rheolwyr. O ganlyniad, mae'r sgôr sicrwydd wedi aros yn Gyfyngedig; bydd Archwilio Mewnol yn ailedrych ar y cynllun gweithredu ym mis Medi, 2020.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â chynnydd gan gadarnhau, er nad yw'r ail gam dilyn i fyny wedi'i amserlennu tan fis Medi, 2020, y bydd y Gwasanaeth yn y cyfamser yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Mae camau wedi cael eu cymryd ac yn parhau i gael eu cymryd i ymateb i'r adolygiad Archwilio Mewnol er mwyn gwella'r sgôr sicrwydd. Mewn ymateb i gwestiynau am swydd wag yr Uwch Reolwr Cynradd sy'n atal cynnydd a ph'un ai y dylid osgoi oedi, byddai disgwyl wedyn i'r Swyddog nesaf yn y strwythur gymryd y camau angenrheidiol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y swydd bellach wedi'i llenwi. Eglurodd hefyd, yn ystod y cyfnod ers iddo gael ei benodi, ei fod wedi ceisio adeiladu tîm gyda ffocws arbennig ar rannu'r un meddylfryd o ran arweinyddiaeth rhag "rhoi holl wyau'r Gwasanaeth mewn un fasged" ac i sicrhau felly bod dull ar y cyd ar gyfer gwahanol elfennau o'r gwasanaeth. Sefydlwyd tair swydd uwch arweinydd newydd sy'n cwmpasu'r sectorau cynradd ac uwchradd ac elfennau lles a diogelu. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a chymorth yn cael ei ddarparu fel bod modd cynnal parhad gwasanaeth yn ystod absenoldeb Swyddogion. Yn ogystal â hyn, mae'r gwasanaeth yn hytrach na gweithredu o'r brig i lawr yn gweithio ar y cyd ag ysgolion i ddatblygu a gweithredu polisi ac mae hefyd yn adolygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â chyrrff llywodraethu ysgolion. Yn y fforymau strategol, drwy'r penaethiaid mae ysgolion bellach mewn gwell sefyllfa i ddeall y rhesymau dros bolisiau a gweithdrefnau a'r canlyniadau os nad ydynt yn eu dilyn a thrwy hynny helpu ysgolion i fod yn rhan o'r newidiadau. Yr oedd yn hyderus bod y gwasanaeth mewn gwell sefyllfa nawr o ran gwybod beth yw ei amcanion yn hyn o beth a bod â chynllun ar waith i'w cyflawni.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y gwaith parhaus o ran polisi casglu incwm wedi canolbwyntio ar egluro cyfrifoldebau ysgolion yn arbennig pan fyddai disgwyl iddynt drosglwyddo dyled i'r tîm cyllid canolog roi sylw iddo.

- Nid oes gwaith dilyn i fyny ar adroddiadau â sgôr Sicrwydd Cyfyngedig ar y gweill ar hyn o bryd. Mae tri gweithgarwch dilyn i fyny wedi'u hamserlennu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf - Rheoli Systemau (Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau (pedwerydd gwaith dilyn i fyny/Sicrwydd Cyfyngedig); Mân Ddyledwyr (Trydydd Gwaith Dilyn i Fyny/Sicrwydd Rhesymol) a Chasglu Incwm Ysgolion Cynradd (Ail adolygaid dilynol/Sicrwydd Cyfyngedig). Gellir ychwanegu at y rhain yn dibynnu ar y sicrwydd a geir yn sgil adolygiadau a gynhelir ar hyd y flwyddyn.
- Nid oes unrhyw faterion/risgiau Uchel neu Goch heb gael sylw ar hyn o bryd ac mae perfformiad y Cyngor o ran mynd i'r afael â materion/risgiau na roddwyd sylw iddynt yn parhau i wella. Yn Rhagfyr 2019, 94% oedd y ganran weithredu ar gyfer materion/risgiau Uchel/Coch/Ambr.
- Mae cynnydd o ran gweithredu'r fersiwn newydd a'r fersiwn ddiweddaraf o'r system olrhain camau gweithredu bellach yn datblygu'n gyflym ar ôl datrys mater TG yn ymwneud â chydweddu. Rhagwelir y bydd Archwilio Mewnol mewn sefyllfa i gyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'r system newydd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ebrill, 2020.
- Mae'r gwaith hwnnw ar y gweill ar bum archwiliad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20, fel y nodir ym Mharagraff 34 o'r adroddiad. Mae cynnydd o ran cwblhau archwiliadau wedi'i ddal yn ôl gan fod dau aelod o'r tîm wedi gadael ac felly'n lleihau'r adnoddau o 118 diwrnod. Diwygiwyd y cynllun yn unol â hynny ac mae proses recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd.

Wrth drafod yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn –

- Yng ngoleuni adolygiad Archwilio Mewnol ynghylch rheoli risgiau Brexit a ganfu fod mewnbyn Aelodau mewn cysylltiad â pharatoadau Brexit wedi bod yn gyfyngedig hyd yma, gofynnodd y Pwyllgor i Gydlynedd Trawsnewid yr UE gael ei wahodd i sesiwn frifio'r Cyngor Llawn i roi diweddariad ar baratoadau a chynnydd hyd yma.
- Er gwaethaf adolygiad Archwilio Mewnol o fframwaith parhad busnes y Cyngor yn ei gyfarwydd, canfuwyd, ar y cyfan, ei fod yn rheoli'r risg yn y maes hwn yn dda iawn a bod ganddo nifer o fesurau rheoli effeithiol yn eu lle i sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol yn dilyn digwyddiad neu argyfwng mawr. Holodd y Pwyllgor a fyddai sgôr Sicrwydd Cyfyngedig yn fwy addas i ymdrin â natur y materion/risgiau a godwyd - 3 Mawr ac 1 Cymedrol a'r bylchau a nodwyd. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd fod yr adolygiad wedi canfod bod y cynlluniau a'r prosesau parhad busnes allweddol yn eu lle ac ar gael; ar ben hynny, roedd ymarfer ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a hwyluswyd gan y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru, lle profwyd y cynlluniau hynny, yn llwyddiannus.
- Gan gyfeirio at y Gwaith Dilyn i Fyny Cyntaf o'r Gwiriad Iechyd o Drefniadau Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion, holodd y Pwyllgor a oedd yn briodol rhoi barn sicrwydd Rhesymol pan fo'r gwaith yn dal i fynd rhagddo. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd y bydd cynnydd yn cael ei fonitro o hyd drwy'r system olrhain *4 action* hyd nes y caiff yr holl gamau gweithredu eu cwblhau mewn modd sy'n bodloni Archwilio Mewnol.
- Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer cyflawni Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2019/20 o ystyried graddfa'r gwaith presennol a wneir a'r swyddi gwag yn y Gwasanaeth. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd fod y cynllun wedi'i addasu i adlewyrchu'r ffaith bod llai o adnoddau ar gael a bod adolygiadau â blaenoriaeth isel wedi'u dileu. Bydd y ffocws yn parhau ar gwblhau'r adolygiadau sy'n cyd-fynd â risgiau Coch/Ambr ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r eglurhad pellach a'r sicrwydd a roddwyd gan y swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnydd diweddaraf

Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, cwblhau adolygiadau, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth ysgogi gwelliannau.

CAMAU YCHWANEGOL: gwahodd Cydlynnydd Trawsnewid yr UE i sesiwn frifffio'r Cyngor Llawn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am baratoadau ar gyfer Brexit gyda gwahoddiad hefyd i ddau aelod llewyg y Pwyllgor fod yn bresennol.

6. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL DDRAFFT 2020/21

Cafodd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft ar gyfer 2020/21, ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei ystyried a'i adolygu.

Adroddodd y Prif Archwilydd fod y Strategaeth ddrafft Archwilio Mewnol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i gael ei sylwadau ac i benderfynu a yw'n cwrdd â gofynion sicrwydd y Cyngor. Yn dilyn ei werthusiad gan y Pwyllgor hwn a chynnwys unrhyw adborth dilynol, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol derfynol gan gynnwys Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gymeradwyo yng nghyfarfod 21 Ebrill, 2020.

Eglurodd y swyddog fod y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei defnyddio i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch archwilio mewnol gyda'r risgiau coch ac ambr gweddilliol ar y gofrestr yn feysydd blaenoriaeth ar gyfer adolygiad Archwilio Mewnol. Ar hyn o bryd, mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys 12 maes lle aseswyd bod y risg weddilliol yn goch neu'n ambr - tynnir sylw at y 5 uchaf yn y Strategaeth. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd ag Arweinydd y Cyngor, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a phob Pennaeth Gwasanaeth i drafod eu barn ar y meysydd adolygu arfaethedig a'u meysydd pryder penodol. Amlinellir y pryderon hynny sy'n adlewyrchu meysydd risg posibl a/neu sy'n dod i'r amlwg yn y Strategaeth a bydd Archwilwyr Mewnol yn rhoi sylw iddynt ac yn eu hadolygu fel y cynigir.

Wrth ystyried yr adroddiad, cwestiynodd y Pwyllgor y ffaith bod cynllun gweithredu ar gyfer 2020/21 wedi'i hepgor fel rhan o'r Strategaeth. Eglurodd y Prif Archwilydd, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch recriwtio, nad oedd cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu hyd yma. Unwaith y bydd y broses recriwtio wedi'i chwblhau caiff cynllun ei ddatblygu a'i adolygu yn ôl yr angen a chaiff ei addasu mewn ymateb i fusnes, risgiau, gweithrediadau a rhaglenni'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ymatebol ac yn berthnasol.

O ran meysydd sy'n peri pryder, trafododd y Pwyllgor yn fyr y risgiau'n ymwneud â'r nifer gynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal a chymhlethdod cynyddol achosion sydd â goblygiadau ariannol i'r Cyngor. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan y trefniadau a oedd yn eu lle ar gyfer trosolwg gan y pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith ar wariant gwasanaethau a rheoli cyllidebau yn y maes hwn.

Penderfynwyd nodi'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 gan dderbyn bod y dull o weithio a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn bodloni anghenion sicrwydd y Cyngor.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd ef.

8. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL - DIWEDDARIAD

Cafodd adroddiad Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig a'r atodiadau cysylltiedig eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried.

Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adolygu nifer fach o risgiau bob mis. Mae pa mor aml yr adolygir pob risg unigol yn dibynnu ar lefel y risg weddilliol ganfyddedig; po uchaf yw'r lefel risg weddilliol po amlaf yr adolygiad, felly caiff risgiau coch eu hadolygu'n fisol, caiff risgiau ambr eu hadolygu bob chwarter, adolygir risgiau melyn bob chwe mis a chaiff risgiau gwyrdd eu hadolygu bob naw mis. O ganlyniad i'r adolygiad diweddaraf gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Ionawr 2020, dywedodd y Swyddog 2020 fod newidiadau/diwygiadau canlynol wedi'i gwneud –

- Nid oes unrhyw risgiau wedi'u cau na'u dileu o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Ychwanegwyd un risg newydd at y gofrestr i egluro cyfrifoldebau diogelu cyffredinol y Cyngor yn hytrach na'i gyfrifoldebau diogelu mewn cysylltiad â'r risg o niwed i blant ac oedolion bregus, sy'n parhau i fod yn risg sydd wedi'i dosbarthu ar wahân.
- Yn sgil y newid mewn amgylchiadau a/neu gynnydd/gostyngiad mewn gweithgarwch rheoli mae lefel y risg weddilliol a/neu gynhenid wedi newid ar gyfer YM9, YM11, YM29 a YM40.
- Nodwyd y risgiau uchaf (coch) i'r Cyngor fel YM28 (yn gysylltiedig â TG), YM29 (yn ymwneud ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr), YM40 (yn gysylltiedig â Brexit) a YM41 (yn ymwneud â chyllid).

Wrth ystyried yr adroddiad trafododd y Pwyllgor a ddylid cydnabod bod Coronafeirws yn risg o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod angen gwerthuso'r risg a'i ddiffinio ar y cam hwn gan gadw mewn cof bod rhai agweddau o bosibl eisoes yn dod o dan y trefniadau cynllunio risg presennol e.e. Cynllunio Parhad Busnes (YM9); caiff y mater ei drafod yng nghyfarfod adolygu nesaf yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Gofynnodd Aelodau Lleyg y Pwyllgor hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Dilysu Risg drafft a ystyriwyd yn y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr, ac a oedd yr awgrymiadau a gynigiwyd i sicrhau cadernid y polisi wedi'u hystyried. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 150 y byddai'r polisi arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Chwefror, 2020 a bod y sylwadau a wnaed wedi'u hadlewyrchu yn y polisi a'r fethodoleg. Bydd copi o adroddiad y Pwyllgor Gwaith yn cael ei ddarparu i Aelodau Lleyg y Pwyllgor.

Penderfynwyd nodi'r diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau ac i gymryd sicrwydd bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

NI CHYNIWIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL

**Cynghorydd Peter Rogers
(Cadeirydd)**